

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWDYD AM 9.30AM AR 2 MEHEFIN 2021 YN NHŶ HASTINGS A
THRUY TEAMS**

Yn bresennol: Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

Amser dechrau: 10:25

Amser gorffen: 12:49

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ynghylch ei chyfarfod diweddar â Tracey Burke o Lywodraeth Cymru (LIC):

- Cododd y Cadeirydd bryderon y Comisiwn ynghylch yr oedi o ran cynnydd y Gorchmynion, ac awgrymodd y dylai LIC dalu am arbenigedd cyfreithiol ychwanegol. Hefyd, gallai'r Comisiwn helpu â'r mapiau, yn ôl yr angen.
- Amlygodd Tracey Burke y bu oedi i'r gwaith ar y Gorchmynion oherwydd Covid, ond nododd sylwadau'r Comisiwn a diolchodd i'r Cadeirydd am dynnu ei sylw at yr oedi. Byddai'n siarad â thîm LIC ynghylch yr oedi.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ynghylch ei chyfarfod diweddar â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn LIC:

- Penodwyd Gweinidog newydd, sef Rebecca Evans, yn Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar ôl Etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Roedd y Gweinidog wedi cael cyfarwyddyd ar yr arolygon etholiadol a'r rôl sydd ganddi o ran gwneud penderfyniadau fel rhan o'i rôl.

- Cododd y Prif Weithredwr y mater o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Arolygon Etholiadol a pha bryd y byddai LIC yn cyhoeddi'r Gorchmynion. Cadarnhaodd LIC y bydd y ddeddfwriaeth ar waith erbyn etholiad nesaf y Senedd.
- Bydd yr holl arolygon sydd wedi'u rhestru yng ngrwpiau blaenoriaeth 1 a 2 Gorchmynion LIC gyda'r Gweinidog erbyn 11 Mehefin 2021.
- Cyfarfu'r Gweinidog â'r Awdurdodau Lleol yr wythnos ddiwethaf, a bydd yn ysgrifennu at y Comisiwn, Aelodau'r Senedd a Chynghorau wedi i benderfyniad gael ei wneud ar arolwg.
- Mae Gorchymyn drafft Sir Fynwy yn barod a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Gweinidog ar y broses.
- Mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru wedi cael rhagor o ohebiaeth yn ymwneud â chynigion Ynysddu (Caerffili). Fodd bynnag, derbyniwyd yr ohebiaeth hon y tu allan o'r cyfnod ymgynghori ac felly ni ellir ei hystyried.
- **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn drafftio llythyr i Brif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol yn diolch iddynt am gymryd rhan yn yr arolwg etholiadol, ac yn rhoi gwybod iddynt fod y Comisiwn wedi gorffen ei waith yn brydlon a bod yr arolwg gyda LIC erbyn hyn. Bydd copi'n cael ei anfon at CLILC ac Un Llais Cymru. Bydd y llythyr hefyd yn cael ei anfon at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 25 Mai 2021 gan y Prif Weithredwr.
- 4.2. **Nodwyd** y byddai cynnydd mewn perthynas â'r Materion yn Codi yn cael ei drafod dan eitemau'r agenda yn y cyfarfod.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Mai 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

- 5.2. **Nodwyd** y byddai'r Prif Weithredwr a Dave Powell yn cyfarfod â Phrif Weithredwr Sir Fynwy ddydd Gwener, ac y byddai Adroddiad Terfynol Sir Fynwy yn cael ei gyhoeddi ddydd Mawrth 8 Mehefin.
- 5.3. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn ymchwilio i pam mae Bro Morgannwg yn oren ar y Gofrestr Risg Arolygon Etholiadol.

6. Adroddiad ar Gyllideb 2020- 21

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid ar gyfer y gwariant diwedd blwyddyn hyd 31 Mawrth 2021.
- 6.2. **Nododd** y Comisiwn y newidiadau terfynol i gategoriâu cyllideb 2020-21. **Nodwyd** bod gwariant y Comisiwn ar gyfer 2020-21 o fewn y gyllideb o ran arian parod ac adnoddau, gan adael tanwariant cymedrol o £7,523 yn unig yn erbyn dyraniad cymorth grant Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei gadw gan LIC.
- 6.3. Nododd y Comisiwn yr amrywiannau yn erbyn amcangyfrifon y gyllideb wreiddiol a'r gwariant terfynol, ynghyd â'r rhesymau am yr amrywiannau a roddwyd gan y Rheolwr Cyllid.

7. Cyllideb 2021-22

- 7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** y gyllideb ar gyfer 2021-22.
- 7.2. **Nodwyd** bod gan y Comisiwn gyfanswm o £1,430,770 i fodloni gwariant disgwylidig CFfDLC a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2021-22. Mae hyn yn cynnwys £598,000 o gymorth grant gan LIC ar gyfer 2021-22, £19,770 sy'n cael ei ddwyn ymlaen o gyllideb 2020-21 y Comisiwn a chyllideb y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2021-22, sef £813,000.
- 7.3. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai fod categori ar wahân yn y gyllideb ar gyfer materion staff, fel lles ac iechyd a diogelwch.
- 7.4. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ychwanegu pennawd newydd yn y gyllideb ar gyfer Cymorth Staff.

8. Adroddiad ar Gyllideb 2021- 22

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.
- 8.2. **Nodwyd** y bu mân orwariant mewn perthynas â ffioedd Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru o ganlyniad i danamcangyfrif y costau a hawliwyd ar gyfer mynychu Briffiau ASau a Phleidiau Gwleidyddol. Hefyd, bu gorwariant ar feddalwedd o ganlyniad i gaffael meddalwedd mapio, er y disgwylir i'r categori hwn adennill costau dros yr ychydig fisoedd nesaf.
- 8.3. Roedd y Comisiwn o'r farn y gallai cael rheolwr cyllideb ar wahân helpu i lunio proffiliau cyllideb mwy manwl gywir. **Cytunwyd** y byddai categorïau cyllideb yn cael eu dyrannu i aelodau staff addas i'w rheoli a'u proffilio am gyfnod prawf.
- 8.4. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn enwi aelodau staff i ddyrannu cyllidebau iddynt sy'n berthnasol i'w swyddi.
- 8.5. Crybwyllwyd y byddai angen i'r Comisiwn ystyried gofynion o ran y cyfryngau a hysbysebu ar gyfer yr arolwg Seneddol ac Arolygon Cymunedol Llywodraeth Leol.
- 8.6. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ystyried opsiynau ar gyfer hysbysebu'r Arolygon Cymunedol ac yn dod â chynigion cyfathrebu i gyfarfodydd yn y dyfodol.
- 8.7. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ymchwilio i ble mae lle yn y gyllideb ar gyfer hysbysebu.

9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u rhoi ar waith.
- 9.3. Cytunwyd y dylai CR3 gynnwys y risg na fydd gorchmynion arolygon yn cael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.
- 9.4. Cytunwyd y byddai cam lliniaru newydd yn cael ei ychwanegu at risg CR3 ynghylch y ddau lythyr gwahanol y bydd y Comisiwn yn eu hanfon at y

Gweinidog a Phrif Weinidog Cymru, a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

- 9.5. **Cytunwyd** y dylid diweddarau'r Mesurau Rheoli ar CR5 i adlewyrchu bod Julie May wedi derbyn estyniad i'w phenodiad fel Comisiynydd tan fis Rhagfyr 2021.
- 9.6. **Cytunwyd** y bydd CR2 yn cael ei ddiweddarau ar gyfer y cyfarfod nesaf ac yna ei ddileu o'r Gofrestr Risg ym mis Gorffennaf. Mae hyn oherwydd bod y Comisiwn wedi cwblhau'r holl arolygon erbyn 2021, ac felly bod y risg yn y dyfodol nawr yn disgyn ar CR1 a CR3.
- 9.7. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau'r Gofrestr Risg â'r newidiadau cytûn.

10. Cyfrifon Blynyddol 2020-21 – Effaith Safonau Cyfrifyddu Nad Ydynt yn Effeithiol Hyd yn Hyn

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** ei gynnwys.
- 10.2. Roedd y Comisiwn o'r farn na fyddai mabwysiadu safon IFRS 16 yn gynnar yn cynnig unrhyw fantais i'r cyfrifon blynyddol.
- 10.3. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn gwirio lefel perthnasedd y prydlesi a gwmpesir gan IFRS 16.
- 10.4. **Nododd a chymeradwyodd** y Comisiwn y nodyn arfaethedig i'w gynnwys yn Nodiadau i'r Cyfrifon Blynyddol 2020-21.

11. Diweddariad ar Argymhellion yr Archwiliad

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion archwilio sy'n weddill.

12. Ymatebion i'r Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

- 12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 12.2. **Nododd** y Comisiwn ganlyniad yr Ymarfer Gwerthuso'r Bwrdd, a thrafododd y cwestiynau lle nad oedd holl aelodau'r Bwrdd yn cytuno'n gryf neu le y cafwyd ymateb amrywiol.

- 12.3. O ran Cwestiwn 2, **cytunwyd** y byddai eitem newydd yn cael ei hychwanegu at agenda cyfarfodydd y Comisiwn bob chwe mis i'r bwrdd ddadansoddi ei berfformiad a'i effeithiolrwydd yn erbyn ei amcanion, ac adolygu cynllun gweithredu effeithiolrwydd y bwrdd.
- 12.4. O ran Cwestiwn 12, nododd y Comisiwn nad oedd unrhyw ddull gwirioneddol i asesu ei berfformiad o gymharu â chyrrff tebyg, ond bod enghreifftiau lle y gwnaed hyn ar sail ad-hoc anffurfiol.
- 12.5. O ran Cwestiwn 29, **cytunwyd** y byddai Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y rhaglen arolygon rhwng y Comisiwn a LIC. Dylid ychwanegu hyn at agenda'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd hefyd.
- 12.6. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau'r Cynllun Gweithredu â'r newidiadau cytûn.
- 12.7. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu Cytundeb Lefel Gwasanaeth at y rhaglen arolygon ac agenda'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd.

13. Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

- 13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 17 Mai 2021 gan y Prif Weithredwr.
- 13.2. **Cytunwyd** i gyflwyno'r adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn amodol ar rai mân newidiadau:
- Tudalen 4 Para 13 – newid *manger* i *manager*.
 - Tudalen 5 – Para 4 – llinell 2 – newid '*skills of post*' i '*requirements of post*'.
 - Tudalen 5 – Para 7 – ychwanegu '*the Commission review and make the Complaints Policy available*'.
 - Tudalen 5 – *Record Keeping Standards* – mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei dyblygu.

14. Arweiniad Cyfredol ar Arolygon Cymunedol

- 14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 18 Mai 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 14.2. **Cytunwyd** i gyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru (LIC) yn amodol ar rai mân newidiadau:

- Cyflwyniad – cynnwys mai nod y Comisiwn yw bod yn dryloyw ynghylch y broses.
- Para 1.7 – newid ‘propose’ i ‘recommend’.
- Para 2.3 – dileu ‘document’ o’r frawddeg.
- Rhagair a 2.5 – dylid cynnwys mwy o fanylion am ddyletswydd cynghorau h.y. o le y daw’r ddyletswydd.
- Paragraffau 3.2 a 3.3 – ymhelaethu ac anfon at y Comisiynwyr drwy’r e-bost.
- Para 3.3 – dylai ddatgan yn glir na fydd y Comisiwn yn ymgynghori ar newidiadau.
- Atodiad 1 – creu blwch ar wahân ar gyfer ‘Initial Consultation’.
- Atodiad 1 – dylai ‘Publish Terms of Reference’ fod mewn blwch ar wahân.

14.3. **Nodwyd** wrth gyhoeddi’r Arweiniad ar Arolygon Cymunedol, y dylai’r Comisiwn gynnwys cyfathrebiad hefyd ar beth mae’r Arolwg Cymunedol yn ei gynnwys, er mwyn helpu pobl i ddeall a gweithio o gwmpas hyn.

14.4. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn ymhelaethu ar 3.2 a 3.3 ac yn eu hanfon at y Comisiynwyr i’w cymeradwyo cyn cyflwyno i LIC.

14.5. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn gwneud y newidiadau uchod i’r Arweiniad ar Arolygon Cymunedol.

14.6. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn creu cynllun cyfathrebu ar gyfer yr Arweiniad ar Arolygon Cymunedol.

15. Hysbyseb a Phecyn Gwybodaeth Comisiynwyr

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad dyddiedig 25 Mai 2021 gan y Prif Weithredwr.

15.2. Ystyriodd y Comisiwn yr arweiniad drafft a **chytunodd** i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) yn amodol ar rai mân newidiadau:

- Tudalen 2 – Rhaglen Arolygon – Pwynt Bwled 1– rhannu’r pwynt bwled yn ddau i ddangos bod rôl y Comisiynydd yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â’r holl randdeiliaid.
- Tudalen 5 – Cyflog – cynnwys y ffi ar gyfer diwrnod llawn a hanner diwrnod yn hysbyseb y Comisiynydd fel ei fod yn gyson â hysbyseb y Cadeirydd.
- Proses ymgeisio – cwtogi’r frawddeg gyntaf.
- Amlygu lle y gwnaed newidiadau wrth gyflwyno i LIC.

- 15.3. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud y newidiadau uchod i Hysbyseb a Phecyn Gwybodaeth y Comisiynwyr.

16. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar) a'r Adroddiad ar yr 2il Arolwg COVID

- 16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniadau Adroddiad yr 2il Arolwg COVID ac ymateb y Comisiwn.
- 16.2. **Nodwyd** bod canlyniadau cyffredinol yr Adroddiad ar yr 2il Arolwg COVID yn dangos bod gan staff lefel uchel o foddhad ag ymateb y Comisiwn.
- 16.3. Rhoddwyd ystyriaeth i'r diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
- 16.4. **Nodwyd** bod y swyddfa'n gweithredu ar system rota o hyd, yn unol â'r canllawiau iechyd cyhoeddus. Bydd y swyddfa'n gweithio ar y sail hon nes caiff yr arweiniad ei ddiweddarau gan LIC. Bydd y Comisiwn yn parhau i ymgysylltu â staff i gefnogi eu lles.
- 16.5. Mae prosiect archifo'n mynd rhagddo â mapiau a ffeiliau, yn barod i symud dodrefn o'r swyddfa ym mis Gorffennaf. Bydd yn hyn caniatáu mwy o le yn y swyddfa am ardal ddosbarthu lawn.

17. Calendr Digwyddiadau

- 17.1. **Nododd** y Comisiwn y Calendr.
- 17.2. **Nodwyd** y dylid ychwanegu'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar 7 Gorffennaf at y Calendr.
- 17.3. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar 7 Gorffennaf at y Calendr Digwyddiadau.

18. Unrhyw Fater Perthnasol Arall

- 18.1. Crybwyllodd Theodore Joloza mai ei gyfarfod olaf â'r Comisiwn fydd y cyfarfod nesaf ar 29 Mehefin. Bydd hefyd yn mynychu'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd sydd wedi'i drefnu ar 7 Gorffennaf.
- 18.2. Diolchodd y Comisiwn i Hannah Toor am ei gwaith a'i gwasanaeth i'r Comisiwn, a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

19. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Mehefin 2021